Statws poblogaeth adar yng Nghymru

2

Statws poblogaeth adar yng Nghymru **2**

- Mae'r prif gyrff cadwraeth adar yng Nghymru wedi adolygu statws poblogaeth yr adar a welir yn rheolaidd yn y wlad gan ddiweddaru'r adolygiad a gyhoeddwyd yn 2002.
- Aseswyd cyfanswm o 213 o rywogaethau gan ddefnyddio meini prawf llym a gosodwyd pob un ar dair rhestr. Adolygwyd y meini prawf hyn ers 2002 yn unol â'r asesiad ar lefel y DU. Mae'r rhestr goch ar gyfer rhywogaethau sydd o dan fygythiad yn fyd-eang a rhywogaethau sydd wedi prinhau llawer yn hanesyddol neu'n ddiweddar. Mae'r rhestr ambr ar gyfer rhywogaethau sy'n dangos adferiad neu brinhad cymedrol ac ar gyfer rhywogaethau a welir mewn rhai lleoedd, sydd yn brin neu sydd yn bwysig yn rhyngwladol. Mae'r rhestr werdd ar gyfer rhywogaethau eraill, yn cynnwys y rhai sy'n dangos adferiad pellach.
- Gosodwyd pedwardeg pump (21%) o rywogaethau ar y rhestr goch: cynnydd o 18. Gosodwyd cant (47%) ar y rhestr ambr, sef cynnydd o 31. Gosodwyd chwedeg wyth (32%) ar y rhestr werdd, sy'n cynrychioli cwymp o 57.
- Symudodd naw rhywogaeth i restrau o bryder cadwraethol is, tra symudodd 63 rhywogaeth i restrau uwch. Symudodd saith rhywogaeth yn syth o wyrdd i goch. Aseswyd saith rhywogaeth am y tro cyntaf ac, o'r rhain, gosodwyd un ar y rhestr goch.
- Y rheswm amlaf dros symud i restr o bryder cadwraethol uwch oedd tystiolaeth bod y boblogaeth yn prinhau. Mewn ychydig o achosion bu symud oherwydd y newidiadau yn y meini prawf. Ymysg y rhesymau dros symud i restr is roedd gwell statws yn Ewrop a gwladychu llwyddiannus.

[1] Panel Cofnodion Cymreig (WRP)
[2] Cymdeithas Adara Cymru (WOS)

Ben Hall (rspb-images.com)

Hwyaden bengoch

Rhywogaethau a aseswyd

Mae'r ailasesiad hwn yn trafod pob rhywogaeth ar restr y WRP[1] o adar a gofnodwyd yng Nghymru, heblaw'r rhai sy'n galw fel crwydriaid yn unig, ymfudwyr prin ac anfynych (fel yr aseswyd gan WOS[2] ac www.scarce-mirgrants.org.uk) a'r rhai a ystyriwyd fel adar sydd wedi diflannu o'r tir gan yr asesiad cyntaf yn 2002. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys rhywogaethau sydd o dan fygythiad yn fyd-eang ond sydd wedi eu gweld yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Rydym hefyd wedi cynnwys rhywogaethau a fu ar un pryd ar y rhestr goch y gellid ystyried erbyn hyn bod eu poblogaethau sy'n nythu wedi diflannu o'r tir. Ni aseswyd rhywogaethau anfrodorol.

Ffynonellau data

Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o ystod o ffynonellau ar statws adar yng Nghymru, y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, hyd at 2006 yn y rhan fwyaf o achosion.

- Mae Arolwg Adar sy'n Nythu (Breeding Bird Survey - BBS) y BTO[3]/JNCC[4]/RSPB[5] yn darparu tueddiadau ar gyfer adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu yng Nghymru ers 1994. Defnyddir statws y DU ar gyfer rhywogaethau nas adroddwyd arnynt gan y BBS yng Nghymru, os nad oes tystiolaeth bod tueddiadau yng Nghymru yn wahanol i rai'r DU.
- Mae rhaglen Fonitro Adar Môr cyd-drefnedig y JNCC yn darparu tueddiadau ar gyfer adar môr.
- Mae Arolwg Adar Gwlyptir blynyddol y BTO/RSPB/JNCC yn darparu tueddiadau a maint poblogaethau lleol ar gyfer adar dŵr sy'n gaeafu.
- Mae'r Asiantaethau Cadwraeth Statudol a Chynllun Blynyddol Adar sy'n Nythu'r RSPB, ynghyd â chyfrifiad Adar Môr 2000, ac arolygon yr RSPB a CCGC[6] yng Nghymru yn darparu data ar faint poblogaethau a thueddiadau ar gyfer rhai rhywogaethau.
- Mae arolygon cenedlaethol o adar mewn cynefinoedd neilltuol, megis arolygon Ailadrodd Ucheldir ac Ailadrodd Coedlannau, yn darparu data ar ystod o rywogaethau nas adroddwyd arnynt gan gynlluniau eraill yng Nghymru. Defnyddiwyd yr arolygon hyn lle'u hystyrir yn gynrychioladol o boblogaethau cenedlaethol.
- Mae'r Adroddiadau Adar Sirol ac Adroddiadau Panel Adar Prin sy'n Nythu yn darparu gwybodaeth flynyddol ar gyfer adar prin sy'n nythu ac nad ydynt yn nythu.
- Ceir tueddiadau mewn dosbarthiad daearyddol ar gyfer rhai rhywogaethau drwy gymharu canlyniadau arolygon diweddar gydag atlasau adar sy'n nythu diweddar y BTO/IWC[7] 1968-72 a BTO/SOC[8]/IWC 1988-91.
- Daw gwybodaeth fyd-eang ac Ewropeaidd o *Threatened Birds of the World 2004*, a *Birds in Europe: population estimates, trends and conservation status.*

[3] Ymddiriedolaeth Adara Prydain (BTO)
[4] Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)
[5] Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB)
[6] Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
[7] Irish Wildbird Conservancy (IWC)
[8] Scottish Ornithologists' Club (SOC)

Grugiar ddu

Chris Gomersall (rspb-images.com



Sue Tranter (rspb-images.com)

Bronfraith

Y meini prawf

Seilir yr adolygiad hwn ar yr un wyth maen prawf bras a ddefnyddiwyd yn yr asesiad cyntaf. Er y byddai'n well dilyn yr un dull asesu mewn adolygiadau olynol, rydym wedi gwneud rhai newidiadau ers 2002 sy'n cynnwys rhai a wnaed ar lefel y DU[9]. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cyfnod hirach o amser ar gyfer asesu newid diweddar mewn poblogaethau yn ogystal â'r cyfnod o 25 mlynedd (1981-2006). Rhed y cyfnod hirach hwn o 1969 i 2006, ac mae'n rhwystro rhywogaethau nad ydynt wedi sicrhau adferiad ar ôl prinhau ers 1969 ond sydd wedi bod yn sefydlog yn y 25 mlynedd diwethaf rhag symud i restrau is. Rydym wedi cyflwyno maen prawf newydd ar gyfer adar prin nad ydynt yn nythu (WR), sy'n cyfateb i'r un ar gyfer nythu (BR). Efallai bod gan Gymru gyfrifoldeb neilltuol dros boblogaethau rhai rhywogaethau yn y DU. O ganlyniad mae meini prawf newydd i ddangos pa bryd mae 50% neu fwy o boblogaeth y DU o'r rhywogaeth yng Nghymru, a 10% neu fwy o rywogaeth brin yn y DU sy'n gaeafu neu'n nythu (heblaw'r rhai nad ydynt wedi sefydlu eu hunain fel rhywogaeth sy'n nythu yng Nghymru).

Gweler gyferbyn y meini prawf y mae'n rhaid eu hateb i gymhwyso ar gyfer y rhestrau coch, ambr neu wyrdd. Aseswyd rhywogaethau drwy ddefnyddio cymaint o feini prawf â phosib yn ôl argaeledd data, ac fe'u trefnwyd yn ôl dosbarthiad Gill a Wright (2006)[10].

[9] Eaton *et al* (2009). *British Birds,* 102, tud 296-341.
[10] Gill, F and Wright, M (2006). *Birds of the World Recommended English Names*. Gwasg Prifysgol Princeton.

Meini prawf y rhestr goch

IUCN Pwysigrwydd Byd-eang; dan fygythiad yn fyd-eang wrth ddefnyddio meini prawf IUCN.

HD Prinhad hanesyddol difrifol 1800-1994 heb adferiad.

BDp[1] a **BDp[2]** Prinhad o 50% o leiaf yn y boblogaeth sy'n nythu (25 mlynedd ac yn y tymor hir).

WDp[1] a **WDp[2]** Prinhad o 50% o leiaf yn y boblogaeth sy'n gaeafu (25 mlynedd ac yn y tymor hir)

BDr[1] a **BDr[2]** Prinhad o 50% o leiaf yn eu dosbarthiad nythu (25 mlynedd ac yn y tymor hir).

Meini prawf y rhestr ambr

SPEC Pwysigrwydd Ewropeaidd: Rhywogaethau o Bryder Cadwraethol Ewropeaidd 1, 2 a 3.

HDrec[1] Adferiad o HD: cynnydd o 100% o leiaf mewn nifer neu ddosbarthiad yn y 25 mlynedd diwethaf.

BDMp[1] a **BDMp[2]** Prinhad o 25% o leiaf ond llai na 50% yn y boblogaeth sy'n nythu (25 mlynedd ac yn y tymor hir).

WDMp[1] a **WDMp[2]** Prinhad o 25% o leiaf ond llai na 50% yn y boblogaeth sy'n gaeafu (25 mlynedd ac yn y tymor hir).

BDMr[1] a **BDMr[2]** Prinhad o 25% o leiaf ond llai na 50% yn y dosbarthiad nythu (25 mlynedd ac yn y tymor hir).

BR a **WR** Cymedr o lai na 30 pâr sy'n nythu neu 90 unigolyn nad ydynt yn nythu yn ystod y cyfnod pum mlynedd diweddaraf sydd â data.

UKred Pwysig yn y DU: ar y rhestr goch ar lefel y DU, heblaw'r rhai sy'n cymhwyso o dan gategorïau nythu ond nad ydynt wedi sefydlu fel adar sy'n nythu yng Nghymru.

UK 50 50% neu fwy o boblogaeth y DU o'r rhywogaeth yng Nghymru.

BRUK a **WRUK** O leiaf 10% o boblogaeth y DU o rywogaeth brin sy'n nythu neu'n gaeafu (yn nythu ac nid yn nythu) yng Nghymru.

BL ac **WL** O leiaf 50% o'r boblogaeth yn digwydd ar un safle, ond nid yn nythwr prin (nythu ac nid yn nythu).

BI ac **WI** O leiaf 2% o'r boblogaeth Ewropeaidd neu'r boblogaeth ar Lwybr Hedfan Dwyrain yr Atlantig (nythu ac nid yn nythu).

Meini prawf y rhestr werdd

Pob rhywogaeth nad yw'n cymhwyso o dan yr uchod, gyda'r ychwanegiad:

HDrec[2] Mae adferiad pellach o HDrec[1] wedi cynyddu o leiaf 20% ers yr asesiad diwethaf.

Rhestr goch newydd Cymru

Rhywogaeth	Statws poblogaeth blaenorol	Statws Cadwraeth Fyd-eang IUCN	HD Prinhad hanesyddol	BDp[1] Prinhad nythu 25 mlynedd	BDp[2] Prinhad nythu yn y tymor hir	WDp[1] Prinhad nad ydynt yn nythu 25 mlynedd	WDp[2] Prinhad nad ydynt yn nythu yn y tymor hir	BDr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd	BDr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir	SPEC Statws gadwraeth Ewrop	HDrec[1] Adferiad ers prinhad hanesyddol	BDMp[1] Prinhad mewn nythu 25 mlynedd	BDMp[2] Prinhad mewn nythu yn y tymor hir	WDMp[1] Prinhad nid yn nythu 25 mlynedd	WDMp[2] Prinhad nid yn nythu yn y tymor hir	BDMr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd	BDMr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir	BR Rhywogaeth brin sy'n nythu	WR Rhywogaeth brin nad ydy'n nythu	BL Yn nythu mewn rhai mannau	WL Mewn rhai mannau, nid yn nythu	UKred Rhestr goch y DU	UK 50 O leiaf 50% o boblogaeth y DU yng Nghymru	BRUK O leiaf 10% o boblogaeth nythwyr prin y DU yng Nghymru	WRUK O leiaf 10% o rywogaethau prin y DU nad ydynt yn nythu yng Nghymru	BI Nythu o bwysigrwydd rhyngwladol	WI O bwysigrwydd rhyngwladol nad yw'n nythu	HDrec[2] Adferiad pellach o brinhad hanesyddol
Gŵydd dalcen-wen	C					■	■														■						
Hwyaden bengoch	G									■								■			■						
Grugiar goch	C		■							■		■	■														
Grugiar ddu	C		■	■				■	■	■																	
Petrisen	C		■	■	■					■																	
Aderyn drycin Balearig	HT	■								■																	
Boda tinwyn	C			■						■									■			■					
Cudyll coch	A				■					■																	
Rhegen yr ŷd	C	■	■	■	■					■												■					
Cwtiad aur	C			■	■				■							■											
Cwtiad llwyd	A					■									■							■					
Cornchwiglen	C			■	■					■												■					
Pibydd y mawn	A					■	■			■		■	■					■				■					
Rhostog gynffonfraith	C					■	■			■												■					
Gylfinir	C			■						■			■									■					
Gwylan benddu	A				■	■		■	■			■															
Gwylan y gweunydd	G					■				■																	
Gwylan y penwaig	A				■	■																					
Gwylan gefnddu fwyaf	A				■												■										
Môr-wennol wridog	C			■	■			■		■							■	■									
Môr-wennol gyffredin	A								■							■											
Môr-wennol y Gogledd	A								■																		■
Môr-wennol fechan	C							■	■	■																	
Pâl	C		■							■						■											
Turtur	C			■	■			■	■	■																	

HT – Heb eu trafod

Andy Hay (rspb-images.com)

Boda tinwyn

Rhestr goch newydd Cymru

Rhywogaeth	Cog G	Tylluan glustiog A	Cnocell fraith leiaf C	Siglen felen A	Mwyalchen y mynydd C	Troellwr bach C	Telor y coed G	Telor yr helyg G	Gwybedog mannog A	Gwybedog fraith G	Titw'r wern C	Titw'r helyg C	Drudwen C	Golfan y mynydd C	Llinos A	Llinos y mynydd A	Llinos bengoch leiaf G	Coch y berllan C	Bras melyn C	Bras yr ŷd C
Statws poblogaeth blaenorol																				
Statws Cadwraeth Fyd-eang IUCN																				
HD Prinhad hanesyddol																				■
BDp[1] Prinhad nythu 25 mlynedd		■		■	■	■	■		■	■		■	■	■			■			■
BDp[2] Prinhad nythu yn y tymor hir	■	■	■	■	■	■	■	■	■		■	■	■	■	■		■	■	■	■
WDp[1] Prinhad nad ydynt yn nythu 25 mlynedd																				
WDp[2] Prinhad nad ydynt yn nythu yn y tymor hir																				
BDr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd																■				■
BDr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir																■				■
SPEC Statws gadwraeth Ewrop		■					■		■		■	■	■	■	■					■
HDrec[1] Adferiad ers prinhad hanesyddol																				
BDMp[1] Prinhad mewn nythu 25 mlynedd	■										■				■	■			■	
BDMp[2] Prinhad mewn nythu yn y tymor hir																				
WDMp[1] Prinhad nid yn nythu 25 mlynedd																				
WDMp[2] Prinhad nid yn nythu yn y tymor hir																				
BDMr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd																				
BDMr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir																				
BR Rhywogaeth brin sy'n nythu		■														■				
WR Rhywogaeth brin nad ydy'n nythu		■														■				
BL Yn nythu mewn rhai mannau																■				
WL Mewn rhai mannau, nid yn nythu																				
UKred Rhestr goch y DU	■	■	■	■	■	■	■	■	■		■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
UK 50 O leiaf 50% o boblogaeth y DU yng Nghymru																				
BRUK O leiaf 10% o boblogaeth nythwyr prin y DU yng Nghymru																				
WRUK O leiaf 10% o rywogaethau prin y DU nad ydynt yn nythu yng Nghymru																				
BI Nythu o bwysigrwydd rhyngwladol																				
WI O bwysigrwydd rhyngwladol nad yw'n nythu																				
HDrec[2] Adferiad pellach o brinhad hanesyddol																				

Siglen felen

Andy Hay (rspb-images.com)

Rhestr ambr newydd Cymru

Rhywogaeth	Statws poblogaeth blaenorol	SPEC Statws gadwraeth Ewrop	HDrec[1] Adferiad ers prinhad hanesyddol	BDMp[1] Prinhad mewn nythu 25 mlynedd	BDMp[2] Prinhad mewn nythu yn y tymor hir	WDMp[1] Prinhad nid yn nythu 25 mlynedd	WDMp[2] Prinhad nid yn nythu yn y tymor hir	BDMr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd	BDMr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir	BR Rhywogaeth brin sy'n nythu	WR Rhywogaeth brin nad ydy'n nythu	BL Yn nythu mewn rhai mannau	WL Mewn rhai mannau, nid yn nythu	UKred Rhestr goch y DU	UK 50 O leiaf 50% o boblogaeth y DU yng Nghymru	BRUK O leiaf 10% o boblogaeth nythwyr prin y DU yng Nghymru	WRUK O leiaf 10% o rywogaethau prin y DU nad ydynt yn nythu yng Nghymru	BI Nythu o bwysigrwydd rhyngwladol	WI O bwysigrwydd rhyngwladol nad yw'n nythu	HDrec[2] Adferiad pellach o brinhad hanesyddol
Alarch dof	G	■								■	■								■	
Alarch Bewick	A	■											■							
Gŵydd wyran	A	■											■							
Gŵydd ddu	A	■											■							
Hwyaden yr eithin	A			■						■			■					■		
Chwiwell	A									■			■							
Hwyaden lwyd	A	■											■							
Corhwyaden	A												■							
Hwyaden wylit	A					■	■						■							
Hwyaden lostfain	A	■											■						■	
Hwyaden addfain	A	■								■			■						■	
Hwyaden lydanbig	A	■											■						■	
Hwyaden gopog	G	■											■	■					■	
Hwyaden benddu fwyaf	A	■									■		■						■	
Hwyaden fwythblu	A									■			■						■	
Hwyaden gynffon-hir	G										■		■						■	
Môr-hwyaden ddu	A												■						■	
Môr-hwyaden y Gogledd	G	■									■		■						■	
Llelan wen	G	■									■		■						■	
Hwyaden frongoch	G	■				■	■						■						■	
Sofliar	A	■		■						■			■						■	
Trochydd gyddfgoch	A	■											■						■	
Trochydd gyddfddu	G	■											■						■	
Trochydd mawr	G	■											■						■	
Gwyach ysgafngoch	G	■											■						■	

Rhywogaeth	Statws poblogaeth blaenorol	SPEC Statws gadwraeth Ewrop	HDrec[1] Adferiad ers prinhad hanesyddol	BDMp[1] Prinhad mewn nythu 25 mlynedd	BDMp[2] Prinhad mewn nythu yn y tymor hir	WDMp[1] Prinhad nid yn nythu 25 mlynedd	WDMp[2] Prinhad nid yn nythu yn y tymor hir	BDMr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd	BDMr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir	BR Rhywogaeth brin sy'n nythu	WR Rhywogaeth brin nad ydy'n nythu	BL Yn nythu mewn rhai mannau	WL Mewn rhai mannau, nid yn nythu	UKred Rhestr goch y DU	UK 50 O leiaf 50% o boblogaeth y DU yng Nghymru	BRUK O leiaf 10% o boblogaeth nythwyr prin y DU yng Nghymru	WRUK O leiaf 10% o rywogaethau prin y DU nad ydynt yn nythu yng Nghymru	BI Nythu o bwysigrwydd rhyngwladol	WI O bwysigrwydd rhyngwladol nad yw'n nythu	HDrec[2] Adferiad pellach o brinhad hanesyddol
Gwyach gorniog	G	■								■	■								■	
Gwyach ysgafddu	G	■											■						■	
Aderyn drycin du	G	■											■						■	
Aderyn drycin Manaw	A	■								■			■						■	
Pedryn drycin	A									■			■						■	
Pedryn cynffon-ffyrchog	G	■											■						■	
Hugan	A												■						■	
Mulfran werdd	A									■			■						■	
Aderyn y bwn	C	■											■						■	
Llwybig	HT	■											■						■	
Boda'r mêl	A	■								■			■						■	
Barcud	A	■											■						■	
Boda'r gwerni	G	■									■		■						■	
Gwalch y pysgod	G	■								■			■						■	
Cudyll bach	A									■			■						■	
Hebog yr ehedydd	A									■			■						■	
Rhegen fraith	A									■			■						■	
Pioden y môr	A												■						■	
Cambig	G	■								■			■						■	
Cwtiad torchog	C	■				■							■						■	
Pibydd yr aber	C	■					■						■						■	
Pibydd y tywod	G	■											■						■	
Pibydd torchog	G	■											■						■	
Giach bach	G	■											■						■	
Giach cyffredin	A	■											■						■	

Rhestr ambr newydd Cymru

Rhywogaeth	Cyffylog	Rhostog gynffonddu	Coegylfinir	Pibydd coesgoch mannog	Pibydd coesgoch	Pibydd y dorlan	Cwtiad y traeth	Sgiwen lostfain	Sgiwen y Gogledd	Gwylan Môr y Canoldir	Gwylan fechan	Gwylan gefnddu leiaf	Môr-wennol bigddu	Cors-wennol ddu	Gwylog	Gwylog ddu	Tylluan wen	Tylluan gorniog	Troellwr mawr	Gwennol ddu	Glas y dorlan	Cnocell werdd	Ehedydd	Gwennol y glennydd	Gwennol
Statws poblogaeth blaenorol	A	A	A	G	A	G	A	G	C	G	HT	A	A	G	G	A	A	A	A	G	A	A	A	A	A
SPEC Statws gadwraeth Ewrop	■	■			■	■					■	■	■	■		■	■		■		■	■	■	■	■
HDrec[1] Adferiad ers prinhad hanesyddol																			■						
BDMp[1] Prinhad mewn nythu 25 mlynedd					■	■														■					
BDMp[2] Prinhad mewn nythu yn y tymor hir					■																				
WDMp[1] Prinhad nid yn nythu 25 mlynedd			■				■																		
WDMp[2] Prinhad nid yn nythu yn y tymor hir																									
BDMr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd																									
BDMr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir																			■						
BR Rhywogaeth brin sy'n nythu															■	■		■							
WR Rhywogaeth brin nad ydy'n nythu				■				■	■	■															
BL Yn nythu mewn rhai mannau												■	■												
WL Mewn rhai mannau, nid yn nythu	■	■	■		■							■													
UKred Rhestr goch y DU									■										■				■		
UK 50 O leiaf 50% o boblogaeth y DU yng Nghymru																									
BRUK O leiaf 10% o boblogaeth nythwyr prin y DU yng Nghymru																									
WRUK O leiaf 10% o rywogaethau prin y DU nad ydynt yn nythu yng Nghymru																									
BI Nythu o bwysigrwydd rhyngwladol												■		■											
WI O bwysigrwydd rhyngwladol nad yw'n nythu	■	■			■																				
HDrec[2] Adferiad pellach o brinhad hanesyddol																									

Rhywogaeth	Gwennol y bondo	Corhedydd y coed	Corhedydd y waun	Bronwen y dŵr	Tingoch du	Tingoch	Tinwen y garn	Socan eira	Bronfraith	Coch dan adain	Telor yr ardd	Llwydfron	Telor Dartford	Drŵy eurben	Drŵy penffiamgoch	Titw barfog	Titw cynffon-hir	Titw penddu	Brân goesgoch	Brân lwyd	Aderyn y to	Gylfinbraff	Bras y Gogledd	Bras yr eira	Bras y cyrs
Statws poblogaeth blaenorol	G	G	G	G	G	A	G	C	A	C	G	G	A	G	A	HT	G	G	A	HT	A	G	G	G	A
SPEC Statws gadwraeth Ewrop	■					■	■						■		■	■			■		■				
HDrec[1] Adferiad ers prinhad hanesyddol																									
BDMp[1] Prinhad mewn nythu 25 mlynedd				■							■		■	■				■				■			
BDMp[2] Prinhad mewn nythu yn y tymor hir		■	■									■					■								■
WDMp[1] Prinhad nid yn nythu 25 mlynedd																									
WDMp[2] Prinhad nid yn nythu yn y tymor hir																									
BDMr[1] Crebachu yn eu dosbarthiad 25 mlynedd																									
BDMr[2] Crebachu yn eu dosbarthiad yn y tymor hir																									
BR Rhywogaeth brin sy'n nythu															■	■									
WR Rhywogaeth brin nad ydy'n nythu					■											■				■			■	■	
BL Yn nythu mewn rhai mannau																									
WL Mewn rhai mannau, nid yn nythu																									
UKred Rhestr goch y DU		■						■	■	■											■	■			
UK 50 O leiaf 50% o boblogaeth y DU yng Nghymru																			■						
BRUK O leiaf 10% o boblogaeth nythwyr prin y DU yng Nghymru																									
WRUK O leiaf 10% o rywogaethau prin y DU nad ydynt yn nythu yng Nghymru																									
BI Nythu o bwysigrwydd rhyngwladol																									
WI O bwysigrwydd rhyngwladol nad yw'n nythu																									
HDrec[2] Adferiad pellach o brinhad hanesyddol																									

Chris Gomersall (rspb-images.com)

Môr-wenoliaid pigddu

Rhestrau coch ac ambr newydd Cymru: themâu a negeseuon

Dylid ystyried y rhestrau hyn fel arf ar gyfer adnabod blaenoriaethau cadwraeth ymysg yr ystod o adar yng Nghymru a chamau bywyd rhywogaethau unigol. Fodd bynnag, nid y bwriad yw eu defnyddio ar wahân i'w gilydd. Rhaid ystyried llawer o ffactorau eraill, fel bygythiadau presennol, dichonoldeb gweithredu a thebygolrwydd llwyddiant, wrth adnabod blaenoriaethau cadwraeth. Mae'r rhestrau coch ac ambr yn fannau cychwyn ar gyfer penderfyniadau o'r fath.

Yn arwyddocaol, mae'r prif sefydliadau cadwraeth adar yng Nghymru yn cymeradwyo'r rhestrau (gweler y dudalen olaf).

Mae'r cynnydd yn hyd y rhestrau coch ac ambr ers yr asesiad cyntaf yn dangos newidiadau a nodir yn statws poblogaeth llawer o rywogaethau. Symudodd naw rhywogaeth i restr is: cwtiad torchog, pibydd yr aber ac aderyn y bwn o goch i ambr, a'r crëyr bach, yr hebog tramor, rhegen ddŵr, gwylan goesddu, colomen wyllt a chlochdar cerrig o ambr i wyrdd. Symudodd chwedeg tri o rywogaethau i restr uwch, gyda saith yn symud yn syth o wyrdd i goch: yr hwyaden bengoch, gwylan y gweunydd, cog, telor y coed, telor yr helyg, gwybedog brith a llinos bengoch leiaf. Aseswyd saith rhywogaeth am y tro cyntaf a gosodwyd un, aderyn drycin y Balearig, ar y rhestr goch. Mae ychydig o rywogaethau wedi newid rhestrau oherwydd newidiadau i'r meini prawf.

Adar o gynefinoedd a amaethir

Nid oes yr un o'r adar o gynefinoedd a amaethir[11] a osodwyd ar y rhestr goch yn 2002 wedi symud i restrau is. Mae hyn yn awgrymu nad yw mesurau a roddwyd ar waith i'w helpu, fel cynlluniau amaeth-amgylcheddol, wedi llwyddo hyd yn hyn. Mae pedwar aderyn cynefinoedd a amaethir yn newydd i'r rhestr goch: y cudyll coch, y siglen felen, y llinos a llinos y mynydd.

Adar y goedlan

Mae arolygon coedlannau diweddar wedi darparu data hanfodol ac o ganlyniad mae pum rhywogaeth y goedlan wedi symud i'r rhestr goch: telor y coed, telor yr helyg, y gwybedog brith a'r llinos bengoch leiaf o wyrdd i goch, a'r gwybedog mannog o ambr i goch.

[11]Mae adar sy'n nodweddiadol o ffermdir yr iseldir wedi eu cynnwys gydag adar yr ucheldir mewn un grŵp a elwir yn adar o gynefinoedd a amaethir.

Adar môr

Dengys yr adolygiad hwn bod nifer rhai o adar môr Cymru'n parhau i fod yn iach, mewn cyferbyniad â rhannau eraill o'r DU. Yn wir, symudodd yr wylan goesddu o'r rhestr ambr i'r rhestr werdd ac mae niferoedd gwylogod bellach yn rhyngwladol bwysig. Fodd bynnag, symudodd pedair rhywogaeth i'r rhestr goch – gwylan y penwaig a'r wylan gefnddu fwyaf oherwydd prinhad yn y nifer sy'n nythu, a'r fôr-wennol gyffredin a môr-wennol y Gogledd oherwydd crebachu mwy yn eu dosbarthiad yn y tymor hir. Mae'n debyg bod newid yng nghyflenwadau bwyd, mwy o aflonyddwch a hinsawdd fwynach, sy'n dylanwadu ar ble mae'r adar yn treulio'r gaeaf, ymysg achosion y prinhad yma.

Adar rhydiol

Mae adar rhydiol sy'n nythu ac nad ydynt yn nythu yn nodwedd amlwg ar y rhestrau coch ac ambr (21 rhywogaeth). Gosodir rhai ar y rhestr goch oherwydd prinhad yn eu niferoedd nythu: y gornchwiglen, y cwtiad aur a'r gylfinir.

Gosodir eraill ar y rhestr goch oherwydd eu prinhad ar eu safleoedd gaeafu ar aberoedd: y cwtiad llwyd, pibydd y mawn a'r rhostog gynffonfraith. Efallai mai symudiad yn eu dosbarthiad tuag at y dwyrain yw'r rheswm dros hyn i rai adar, ac efallai bod problemau ar fannau nythu'r lleill yn yr Arctig.

Adferiad

Mae'n bwysig deall bod penodi i restrau fel hyn yn gallu cuddio newidiadau dargyfeiriol yn eu ffawd. Er enghraifft, symudodd môr-wennol y Gogledd i'r rhestr goch oherwydd prinhad difrifol yn nifer eu nythfeydd yn y tymor hir, er bod eu poblogaeth drwyddo draw wedi cynyddu'n ddigonol i'w hystyried ar gyfer y rhestr werdd. Yn yr un modd, yn dilyn llwyddiant gwarchod eu nythod, mae nifer barcutiaid wedi parhau i adfer, sy'n cymhwyso'r rhywogaeth hon ar gyfer y rhestr werdd, ond mae'r boblogaeth yng Nghymru bellach mor bwysig yn rhyngwladol fel ei fod yn cymhwyso fel ambr.

Gwahaniaethau i'r DU

O'r rhywogaethau a aseswyd yng Nghymru mae 149 (70%) ar yr un rhestr â'r DU ehangach. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau pwysig. Er enghraifft, er bod y troellwr mawr, yr ehedydd, aderyn y to a'r fronfraith ar restr goch y DU, maent ar restr ambr Cymru. Y rheswm am hyn yw nad ydynt wedi prinhau yma. Fodd bynnag, o'r rhain, dim ond y fronfraith sydd ar y rhestr ambr yng Nghymru oherwydd ei statws ar restr goch y DU. Mae'r tair rhywogaeth arall yn bwysig yn Ewrop. Mae deunaw o rywogaethau ar y rhestr goch yng Nghymru ond nid yn y DU, yn cynnwys rhydwyr, adar môr ac adar y goedlan sy'n nythu ac yn gaeafu.

Manylion pellach

Mae adroddiad manwl o statws poblogaeth adolygedig adar yng Nghymru ar gael gan yr RSPB.

Andrew Parkinson (rspb-images.com)

Barcud

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan yr RSPB ar ran

Cymdeithas Adara Cymru
Ysgrifennydd – Ian Spence
43 Blackbrook
Sychdyn
Yr Wyddgrug
Sir Y Fflint CF7 6LT
E-bost: ianspence@btinternet.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
www.wales.gov.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos, Bangor
Gwynedd LL57 2DN
Ffôn: 0845 130 6229
www.ccw.gov.uk

Y BTO
The Nunnery
Thetford
Norfolk IP24 2PU
www.bto.org

Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir
Canolfan Gwlyptir Cenedlaethol Cymru
Penclacwydd, Llwynhendy
Llanelli SA14 9SH
www.wwt.org.uk

RSPB Cymru
Tŷ Sutherland
Pontycastell
Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd CF11 9AB
Ffôn: 029 2035 3000
www.rspb.org.uk

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, Yr Alban rhif SC037654 830-1669-08-09

Delwedd clawr:
Cudyll coch gan Richard Revels (rspb-images.com)